**Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi**

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 10:30am ddydd Llun 9 Chwefror yn Ystafell Gynadledda 6, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.

**Gweinidogion a oedd yn bresennol**
Y Prif Weinidog
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg (Eitem 4 ar yr agenda)
Y Gweinidog Cyllid (Eitem 5 ar yr agenda)

**Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol**
Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig – Ben Cottam
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain – Emma Watkins
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain – Leighton Jenkins (Sylwedydd)
Siambrau Cymru – Keith Palmer
Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi – Peter Hughes
EEF/Cadeirydd Commerce Cymru – Paul Byard
Y Ffederasiwn Busnesau Bach – Iestyn Davies
Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi – Mark Harris
Sefydliad y Cyfarwyddwyr – Robert Lloyd Griffiths
Sefydliad y Cyfarwyddwyr – Huw Roberts
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig – David Morgan
Siambr Fasnach De Cymru – Graham Morgan
Cymdeithas y Cyfreithwyr – Lowri Morgan
Canolfan Cydweithredol Cymru – Derek Walker
TUC Cymru – Martin Mansfield
TUC Cymru – Alex Bevan
TUC Cymru – Gareth Jones
Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru – Nigel Keane (Sylwedydd)
Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru – Heather Eason (Sylwedydd)
Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru – Mark Judd (Sylwedydd)

**Ymddiheuriadau**
Y Sefydliad Marchnata Siartredig – Richard Houdmont
Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr – Ifan Glyn
Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau – Ian Gallagher
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr – Martin Warren
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Huw Thomas
Y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffyrdd – Nick Payne

**Cynghorwyr arbennig a swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol**
Derek Jones, Yr Ysgrifennydd Parhaol
Jeff Andrews – Eitem 5 ar yr agenda
Andrew Bold
Tracey Burke
Rachel Garside-Jones – Eitem 4 ar yr agenda
Andrew Jeffreys – Eitem 5 ar yr agenda
Huw Morris – Eitem 4 ar yr agenda
Mick McGuire
James Price
Jonathan Price
Hugh Rawlings – Eitem 5 ar yr agenda
Huw Griffiths – Cofnodwr
Rebecca Johnson – Cofnodwr

**1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol**

1.1 Agorodd y Prif Weinidog y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau ac esboniodd fod fformat y cyfarfodydd wedi newid fel bod llai o eitemau ar yr agenda er mwyn caniatáu mwy o amser i drafod.

1.2 Nododd y Prif Weinidog y prif eitemau ar yr agenda, sef:

- Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf
- Crynhoi'r sefyllfa o ran yr economi
- Sgiliau, yr adferiad a thwf
- Newid cyfansoddiadol, datganoli a pholisi cyllidol.

1.3 Roedd tri phapur i'w nodi: Cylch Gorchwyl – Gweithgor Gweithredol; Y Diweddaraf ar Dwf Gwyrdd; ac Adolygiad Cynllun Busnes – y diweddaraf.

1.4 Esboniodd y Prif Weinidog y byddai'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ynglŷn â'r papur ar sgiliau ac y byddai'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ynglŷn â'r papur ar newid cyfansoddiadol a pholisi cyllidol.

1.5 Bu cyfarfod y Cyngor yn ymdrin â rhai diweddariadau a oedd yn codi o gyfarfod mis Hydref, fel y nodir isod, cyn symud ymlaen i ymdrin â'r papurau.

**2. Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2014**

2.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd gan unrhyw un sylwadau ar y nodiadau ac a oedd unrhyw faterion yn codi ynghylch cywirdeb y nodiadau – ni wnaed unrhyw sylwadau ac ni chodwyd unrhyw faterion.

2.2 Cytunwyd bod y nodiadau'n gofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.

2.3 Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol ar gamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf:

2.3.1 **Prisiau ynni –** Rhoddodd y Prif Weinidog y wybodaeth ddiweddaraf am faterion ynghylch ynni. Dywedodd fod rhai o aelodau'r Cyngor wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

2.3.2 Dywedodd y Prif Weinidog hefyd fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau wedi ysgrifennu ato ynghylch y materion sy'n ymwneud â phrisiau ynni.

2.3.3 **Caffael –** Dywedodd Martin Mansfield fod hwn yn faes y byddai TUC Cymru yn hoffi ei ystyried ymhellach yn y Gweithgor Gweithredol. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai hynny'n cael ei drafod dan unrhyw fater arall.

3. **Trafodaeth i grynhoi'r sefyllfa o ran yr economi**

3.1 Gofynnodd y Prif Weinidog i Jonathan Price roi sylwadau ar yr eitem ynghylch crynhoi'r sefyllfa o ran yr economi ac awgrymodd fod tri mater allweddol i'w hystyried – allforion, cyflogaeth a buddsoddi.

3.2 Rhoddodd Jonathan Price y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor, sef bod cyfres o gyfarfodydd wedi'u cynnal rhwng y Prif Ystadegydd, rhai o aelodau'r Cyngor a Jonathan Price ynghylch dangosyddion economaidd. Rhoddodd Jonathan Price grynodeb o'r materion a godwyd yn y cyfarfodydd.

3.3 Adrodd ynghylch cynnyrch domestig gros bob chwarter – Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y defnydd a wneir o ffigurau chwarterol ynghylch cynnyrch domestig gros mewn proffiliau economaidd, barn Jonathan Price oedd bod ysgogiadau polisi economaidd Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried dros y tymor hwy. Mae'n cydnabod y pwynt a nodwyd am y defnydd a wneir o ffigurau chwarterol ynghylch cynnyrch domestig gros ac mae'n barod i wrando ar safbwyntiau pellach ynghylch y defnydd a wneir ohonynt.

3.4 Technegau dadansoddi data – Dywedodd fod technegau dadansoddi a thechnegau'n ymwneud â data wrthi'n cael eu hadolygu o ran y potensial sydd i ddadansoddi'r model macro-economaidd ar gyfer economi Cymru ar wahân i'r DU. Byddai'r mater yn parhau i gael ei adolygu a byddai Jonathan Price yn ei ystyried gydag academyddion.

3.5 Dywedodd Jonathan Price y byddai'n ddiddorol rhoi materion mewn cyd-destun tymor canolig i dymor hir yn un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol. Er ein bod wedi gweld rhywfaint o dwf economaidd yn ystod oddeutu'r flwyddyn ddiwethaf, ei farn ef oedd y gallai'r economi fod ymhellach o lawer ar y blaen i'r sefyllfa y mae ynddi ar hyn o bryd a bod angen peidio â cholli golwg ar y persbectif tymor hwy.

3.6 Rhagwelir y bydd yr economi'n tyfu rhwng 2 a 2.5 y cant eleni ond rhybuddiodd ynghylch yr anawsterau y mae'r sawl sy'n gyfrifol am ragolygon yn eu hwynebu wrth geisio rhagfynegi twf economaidd.

3.7 Trodd Jonathan Price ei sylw at faterion byd-eang a allai ddylanwadu ar y rhagolygon economaidd. Mae prisiau olew is yn newyddion cadarnhaol i dwf a allai, yn ei farn ef, fod yn werth hyd at 1% dros gyfnod o flwyddyn. Fodd bynnag, cafodd y risgiau geowleidyddol ar draws Dwyrain Ewrop ac Ukrain eu nodi hefyd.

3.8 Wrth roi ei farn i'r Cyngor am ddata ynghylch marchnad lafur Cymru dywedodd Jonathan Price y gall data ar lefel Cymru gael ei ystyried yn anwadal ond ei fod yn cyd-fynd yn fras ag economi'r DU. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ystod o ddata wrth archwilio'r maes hwn, megis nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra a data gan gyflogwyr. Mae'n darparu set ddata eithaf cadarn ond ceir rhywfaint o ansicrwydd.

3.9 Wrth droi at gwestiynau gan y Cyngor cododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth bwynt ynghylch sylwadau Alan Greenspan ar Ardal yr Ewro ac a allai'r economi yn y dyfodol fod yn debycach i economi Japan.

3.10 Dywedodd Jonathan Price ei bod yn anodd rhagweld y pethau hyn. Nododd y byddai'n synhwyrol paratoi ar gyfer canlyniadau anffafriol ond ei bod yn anodd rhagweld hynny. Wrth sôn am sefyllfa economaidd Japan dywedodd Jonathan Price fod sefyllfa ddemograffig lle y ceir llai o bobl o oedran gweithio a llai o oriau gwaith yn golygu bod economi'r wlad wedi gorfod goddef newidiadau economaidd. Dywedodd y gellid dadlau bod llai o dwf wedi digwydd yn y byd gorllewinol oherwydd bod poblogaethau'n heneiddio a bod pwerdai arloesi efallai'n llai cynhyrchiol, ond mae erthyglau ynghylch hynny'n amhendant.

3.11 Agorodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yr eitem hon i'w thrafod yn ehangach.

3.12 Dywedodd Gareth Jones fod ei sefydliad ef o'r farn bod cyflogau tlodi a chyflogaeth ansicr yn nodweddion o'r economi ar hyn o bryd lle mae contractau dros dro, gweithwyr asiantaeth ac arferion cyflogaeth mwy hyblyg yn amlwg. Roedd yn croesawu mentrau Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau sy'n bodoli eisoes a gwaith mewnfuddsoddi. Dywedodd Gareth Jones ei fod yn croesawu gweld busnesau'n buddsoddi yng Nghymru ond cododd bwynt ynghylch busnesau rhai mewnfuddsoddwyr nad oeddent yn awyddus i ymwneud â phartneriaid cymdeithasol. Felly, roedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu er mwyn sicrhau bod busnesau o'r fath yn fwy parod i ymwneud â phartneriaid cymdeithasol.

3.13 Dywedodd Emma Watkins fod y ffigurau ynghylch allforion wedi bod yn eithaf gwastad yn ystod 2014 ond bod aelodau Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn fwy gobeithiol ar gyfer 2015. O ran bwriadau busnesau ynghylch cyflogi, dywedodd fod dros eu hanner yn bwriadu cyflogi rhagor o bobl a bod gweithwyr parhaol yn cael eu cyflogi yn hytrach na gweithwyr dros dro. Roedd hithau'n ansicr hefyd ynghylch yr hyn a fyddai'n digwydd yn Ardal yr Ewro a dywedodd fod y materion yr oedd Jonathan Price wedi sôn amdanynt yn dringo'r gofrestr risg i fusnesau.

3.14 Ategodd Robert Lloyd Griffiths bwyntiau Emma a dywedodd fod ei aelodau yn cyflogi staff newydd erbyn hyn o gymharu â'r llynedd pan oeddent wrthi'n cynllunio yn unig.

3.15 Dywedodd Graham Morgan fod rhai marchnadoedd yn lleihau, megis masnach i Ewrop, a bod angen felly i fyd busnes addasu. Dywedodd fod cynnydd o 32% wedi bod yn nifer y dogfennau sy'n ymwneud â masnach â gwledydd y Dwyrain Canol. Ychwanegodd ei bod yn bwysig darganfod y mathau cywir o bobl mewn meysydd megis TGCh a pheirianneg, a rheoli effaith gadarnhaol twristiaeth a'r manteision economaidd sydd i'w cael o ddenu myfyrwyr yma o dramor.

3.16 Rhoddodd Peter Hughes y wybodaeth ddiweddaraf am y sector ariannol. Rhannodd newyddion cadarnhaol am gyfraddau llog, sy'n newydd da i'r sawl sy'n prynu tŷ ond nad yw'n newydd cystal i'r sawl sy'n cynilo y mae eu nifer

ddengwaith gymaint â nifer y bobl sy'n prynu tŷ. Roedd ganddo newydd cadarnhaol am fuddsoddi a chyflogaeth ac am lefelau uwch o fenthyciadau'n ymwneud ag eiddo preswyl ac eiddo masnachol. Rhagwelir llai o ôl-ddyledion a marchnad dai sy'n fwy cydnerth ar gyfer 2015-16 oherwydd bod gan y sector bancio lefelau da o gyfalaf erbyn hyn.

3.17 Dywedodd Paul Byard fod lefelau hyder ym maes gweithgynhyrchu wedi gostwng ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Roedd pryder nad oedd fawr ddim yn natganiad yr hydref diwethaf i ateb problemau'n ymwneud ag ynni. Soniodd am ailddiwydiannu Ewrop ac ymholodd ynghylch beth y gallwn ei wneud ynglŷn â'n strategaeth ein hunain i gystadlu.

3.18 Ymholodd Huw Roberts ynghylch amlder a chymhlethdod adroddiadau chwarterol. Yn ei farn ef mae gwahaniaeth rhwng adroddiadau'r sector preifat ac adroddiadau'r sector cyhoeddus ac awgrymodd y dylid symud i system o ffigurau cyfartaledd er mwyn ei gwneud yn haws cael gwybodaeth reoli.

3.19 Soniodd Ben Cottam wrth y Cyngor am fodelau ariannu newydd megis ariannu torfol. Soniodd am fuddsoddi cynyddol ym maes cydwasanaethau ariannol a dywedodd iddo fod mewn cysylltiad â'r tîm Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol ynghylch cael Cymru yn ganolfan ar gyfer y math hwn o weithgarwch.

3.20 Wrth grynhoi dywedodd Jonathan Price fod angen i'r economi sicrhau twf dros y tymor hwy. Dywedodd fod cyflogau yn cynyddu'n gynt na phrisiau a'i fod yn disgwyl gweld rhagor o welliannau. O ran y defnydd a wneir o wybodaeth reoli a dangosyddion chwarterol nododd ei fod, yn ei adolygiad, wedi ceisio cysylltu dangosyddion ag ysgogiadau polisi gan ddefnyddio dangosyddion lefel uchel megis cyflogaeth a chyflogau. Mae ysgogiadau Llywodraeth Cymru yn gweithredu yn y tymor canolig i'r tymor hir a cheir ffactorau sydd efallai'n effeithio ar economi Cymru yn y tymor byrrach, ee penderfyniadau Banc Lloegr, ond ei farn ef oedd nad yw dangosyddion chwarterol mor ddefnyddiol.

3.21 Cyfeiriodd Iestyn Davies at y pecyn dadansoddi economaidd defnyddiol yr oedd yr aelodau wedi'i gael ar gyfer y cyfarfod a diolchodd i bawb a fu'n ymwneud â'i baratoi.

3.22 Cododd Iestyn Davies bwynt ynghylch amrywiadau is-ranbarthol yng nghyd-destun y DU ac roedd yn awyddus i archwilio dadansoddiad ar lefel NUTS 3 er mwyn creu darlun economaidd.

| |
|---|
| **GWEITHREDU:** Swyddogion i drefnu sgwrs rhwng Jonathan Price ac Iestyn Davies i drafod amrywiadau is-ranbarthol yng nghyd-destun y DU a'r potensial sydd i archwilio dadansoddiad ar lefel NUTS 3 er mwyn creu darlun economaidd. |

## 4. Sgiliau, yr adferiad a thwf

4.1 Cafwyd sylwadau rhagarweiniol gan y Prif Weinidog i'r papur ar Sgiliau, yr Adferiad a Thwf a gyflwynwyd gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

4.2 Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod yr Adran Addysg a Sgiliau wedi cyhoeddi ei strategaeth ynghylch sgiliau ym mis Ionawr 2014 a bod ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau wedi dilyn ym mis Gorffennaf 2014. Mae'n amlinellu'r gwaith o ddatblygu sgiliau yng Nghymru ac mae'n ceisio cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sgiliau cywir ar gyfer y swyddi cywir sy'n hybu twf. Esboniodd yr angen am atebion arloesol er mwyn galluogi cyflogwyr i fuddsoddi, a bod y polisi cydfuddsoddi mewn sgiliau'n nodi bod disgwyl i gyflogwyr chwarae eu rhan.

4.3 Nododd y Dirprwy Weinidog fod Dŵr Cymru yn enghraifft gadarnhaol o gwmni lle'r oedd buddsoddiad gan y cyflogwr yn sgiliau'r gweithlu wedi dangos y gwahaniaeth yr oedd datblygu sgiliau wedi ei wneud i'r elw, i'r cwmni ac i fywydau'r gweithwyr drwy sicrhau gwell iechyd a gwell rhagolygon. Roedd y Dirprwy Weinidog yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd yn yr economi i dyfu wrth weithredu dan bwysau cyllidebol, felly roedd yn bwysig bod y buddsoddiad cywir yn cael ei wneud ar yr adeg gywir.

4.4 Soniodd y Dirprwy Weinidog wrth yr aelodau am rywfaint o'i hymwneud â rhanddeiliaid a dywedodd fod y papur yn cynnwys rhai amcanion trosfwaol, megis tynnu sylw at bwysigrwydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol sy'n cysylltu darparwyr a busnesau â'i gilydd a'r arian sy'n mynd i mewn iddynt er mwyn sicrhau buddsoddiad yn y sgiliau cywir ar gyfer y rhanbarth.

4.5 Dywedodd Alex Bevan fod angen i ni nodi pryd y mae angen hyfforddiant ac addysg ar bobl er mwyn osgoi problemau disgyblu yn y gwaith yn y lle cyntaf. Cododd fater a oedd yn ymwneud â chyflogwyr sy'n gwrthod hyfforddiant yn gyson a dywedodd fod angen mynd i'r afael â hynny. Ychwanegodd fod hynny'n bwysig gan ei fod yn gallu effeithio ar ddatblygiad o ran gyrfa, oherwydd bydd unigolion yn dibynnu ar hyfforddiant yn eu gweithle presennol cyn symud ymlaen i weithle arall. Roedd Alex Bevan yn cydnabod y galw cynyddol am sgiliau ar lefel uwch ond rhybuddiodd ynghylch rhoi gormod o bwys ar hynny ar draul meysydd sgiliau mwy hanfodol, gan awgrymu bod datblygu sgiliau ar Lefel 2 yn dal yn bwysig, a bod angen ystyried y mater hwn yn ofalus felly. Ychwanegodd fod llawer o bobl y mae angen iddynt uwchraddio eu sgiliau yn perthyn i'r gweithlu eisoes, felly gallai hynny effeithio ar weithwyr newydd sy'n ymuno â'r gweithlu. Dywedodd David Morgan ei fod am drafod hybu delwedd gadarnhaol o'r sector adeiladu â'r Dirprwy Weinidog, ac roedd yn cydnabod bod angen i wasanaethau cynghori ynghylch gyrfaoedd wella'r modd y caiff y diwydiant adeiladu ei bortreadu.

4.6 Cyfeiriodd Iestyn Davies at baragraff 14 y papur sy'n nodi y bydd pob Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn cynhyrchu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol erbyn mis Ebrill 2015. Gofynnodd pa mor agos yr oeddem at fodloni'r terfyn amser ac i ba raddau y gellir cydnabod cwmnïau unigol am

fuddsoddi mewn hyfforddiant ar Lefel 4 a lefelau uwch. Roedd yn sylweddoli'r angen i gydnabod busnesau sydd wedi ymrwymo i feithrin sgiliau a sicrhau twf.

4.7 Gofynnodd Ben Cottam sut y mae'r proffesiynau yn cyd-fynd â'r model prentisiaethau ac awgrymodd, pe baem yn gallu ehangu meysydd megis y proffesiynau, y byddai hynny'n rhoi mwy o symudedd cymdeithasol i unigolion yn y sector busnes perthnasol. Nododd hefyd yr angen am well cyngor ynghylch gyrfaoedd o safbwynt y proffesiynau.

4.8 Ychwanegodd Lowri Morgan y gallai cynnig help gyda Lefel 3, Lefel 4 a Lefel 7 ddarparu cyfleoedd a meithrin capasiti a symudedd cymdeithasol. At hynny, dywedodd fod ei haelodau'n llawn cyffro ynghylch y potensial sydd i staff allu astudio wrth weithio.

4.9 Awgrymodd Emma Watkins y dylid gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth am y farchnad lafur ac y dylid ymdrechu i roi mwy o gyfrifoldeb ar gyflogwyr unigol i hybu anghenion o ran sgiliau. Gofynnodd beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau mewn sectorau allweddol megis TGCh, a beth y gall busnesau ei wneud yn well i fynd i'r afael â'r bylchau hynny.

4.10 Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod trafodaethau wedi digwydd gyda'n sectorau, megis y Diwydiannau Creadigol. Ychwanegodd y Gweinidog fod angen i ni ddarganfod beth yw'r gofynion ar gyfer meysydd megis ynni niwclear a rheilffyrdd er mwyn i bobl weithio yn y sectorau hynny. Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod a wnelo hynny â mwy na'r colegau yn unig ac ychwanegodd fod trafodaethau da wedi digwydd rhwng yr Adrannau (Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Adran Addysg a Sgiliau) ynghylch hynny. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i Emma Watkins fod y sgwrs honno'n mynd rhagddi.

4.11 Dywedodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau wrth yr aelodau fod ei hadran yn adolygu'r cyrsiau y mae'r Llywodraeth yn eu hariannu, gan ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn sgiliau y mae cyflogwyr yn rhoi gwerth arnynt.

4.12 Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog fod Gyrfa Cymru wedi cael ei ddiwygio a'i fod bellach wedi dod yn rhan o un asiantaeth yn y Llywodraeth. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod adolygiad cynhwysfawr yn cael ei gynnal o Gyrfa Cymru, a fyddai'n ystyried yn benodol ei bresenoldeb ar y we a'r modd y mae'n gweithio gydag ysgolion.

4.13 Mae'r Porth Sgiliau wedi'i lansio; bydd un i fyd busnes ac un i unigolion. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth yr aelodau fod ganddi rywfaint o brofiad o weithio gyda rhai sectorau ar wella eu delwedd a bod angen i ni weithredu ynghylch sgiliau hanfodol, ysgolion ac addysg ôl-16.

4.14 Rhoddodd y Dirprwy Weinidog y wybodaeth ddiweddaraf am sgiliau rhanbarthol gan gyfeirio at y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae pob un o'r tri bwrdd rhanbarthol yn gwneud cynnydd o safbwynt cynhyrchu eu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol erbyn mis Ebrill 2015, ac roedd y Dirprwy Weinidog yn

cydnabod bod bwrdd y gogledd wedi gwneud cynnydd aruthrol. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod cynnydd yn cael ei wneud ym mhob un o'r tri rhanbarth tuag at fodloni'r terfyn amser, sef mis Ebrill.

4.15 Rhoddodd Rachel Garside-Jones y wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau peilot y mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn eu cynnal ar ddefnyddio sgiliau, hynny yw y defnydd y mae cyflogwyr yn ei wneud o'r sgiliau sydd yn eu gweithlu, a phan fydd y cynlluniau peilot wedi'u cynnal a'u gwerthuso rhoddir ystyriaeth bellach i waith posibl mewn sectorau eraill yng Nghymru. Cadarnhaodd y byddai'r Adran Addysg a Sgiliau yn fodlon dod yn ôl i adrodd ynghylch y cynlluniau peilot hyn yn y diwydiant adeiladu a'r diwydiannau creadigol.

4.16 Soniodd y Dirprwy Weinidog am bwysigrwydd prentisiaethau lefel uchel ar gyfer y proffesiynau er mwyn darparu llwybr arall at gyfleoedd astudio a hunanariennir.

## 5. Newid cyfansoddiadol, datganoli a pholisi cyllidol

5.1 Ymunodd y Gweinidog Cyllid â'r cyfarfod a chyflwynodd y Prif Weinidog yr eitem hon. Nododd y Prif Weinidog ei sylwadau ar y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd â Llywodraeth y DU a nododd yr heriau sy'n ymwneud ag ymdopi â dull *ad hoc* San Steffan o weithredu. Ei farn ef oedd y dylai'r pwerau a gynigir i ran arall o'r DU gael eu cynnig hefyd i Gymru ac y byddai Cymru wedyn yn mabwysiadu'r pwerau sy'n gywir i Gymru.

5.2 O safbwynt cyllid dywedodd y Prif Weinidog wrth yr aelodau fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cyllid gwaelodol. O safbwynt treth incwm mae angen setliad ariannol llawn i Gymru cyn y gellir ystyried treth incwm, felly nododd y Prif Weinidog yn glir nad oeddem yn agos at weld treth incwm yn cael ei datganoli fel y mae pethau ar hyn o bryd.

5.3 Nododd y Prif Weinidog fod y gwledydd datganoledig sydd yn economi'r DU fel 'marchnad gyffredin ar gyfer busnes yn y DU' a mynegodd bryderon ynghylch newidiadau i gydbwysedd y DU wrth i ragor o ddatganoli ddigwydd yn achos yr Alban.

5.4 Dywedodd y Prif Weinidog fod angen bod yn ofalus wrth ymdrin â phwerau ynghylch treth gorfforaeth, a rhybuddiodd y gallai "ras i fod rataf" ddigwydd pe bai gwahanol rannau o'r DU yn ceisio cystadlu â'i gilydd i gynnig cyfraddau is ar gyfer trethi. Nid oedd wedi dadlau dros ddatganoli treth gorfforaeth i Gymru ond byddai angen iddo ailystyried y mater pe cynigid datganoli'r dreth gorfforaeth i'r Alban.

5.5 Byddai mabwysiadu'r model cadw pwerau yn ei gwneud yn haws o safbwynt datganoli yng Nghymru. Mae'r model hwn ar waith yn yr Alban ac nid yw wedi arwain at y problemau yr ydym ni wedi'u cael o safbwynt diffyg eglurder a'r achosion niferus o gyfeirio Biliau at y Goruchaf Lys, y mae ein trefniant presennol wedi esgor arnynt.

5.6 Wrth droi ei sylw at raglenni cyflogaeth, megis y rhai a gaiff eu gweithredu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, dywedodd y Prif Weinidog ei bod yn gwneud synnwyr i Gymru gael y pwerau hyn.

5.7 Barn y Prif Weinidog am yr Ardoll Seilwaith Cymunedol oedd nad oes unrhyw reswm pam na ellir ei datganoli i Gymru.

5.8 Roedd y Prif Weinidog yn cydnabod y canlyniadau anffafriol posibl y gallai gwahanol setliadau datganoli eu hachosi yn y DU. O ran y Doll Teithwyr Awyr, ei farn ef oedd nad oes unrhyw reswm rhesymegol na synhwyrol pam y dylai'r Alban gael y pŵer hwn ac na ddylai Cymru efallai ei gael; byddai'n parhau i bwyso am ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru.

5.9 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Prif Weinidog am y broses Dydd Gŵyl Dewi sydd ar ddod, a fyddai'n ystyried datganoli pellach; fodd bynnag rhybuddiodd mai ychydig o gynnydd ystyrlon a fyddai efallai'n cael ei wneud oherwydd bod sylw pleidiau gwleidyddol y DU ar yr etholiad cyffredinol ym mis Mai.

5.10 Wrth grynhoi dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r setliad datganoli sy'n cael ei gynnig i'r Alban a'r hyn a allai weithio i Gymru. Dylai'r hyn a gynigir i'r Alban gael ei gynnig i Gymru hefyd er mwyn ei ystyried, a byddwn wedyn yn mabwysiadu'r hyn sy'n gywir i Gymru.

5.11 Yna gwahoddodd y Prif Weinidog y Gweinidog Cyllid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am eitem 5 ar yr agenda.

5.12 Dywedodd y Gweinidog Cyllid ei bod wedi bod yn ceisio sicrhau cynnydd ynghylch amryw faterion megis fformiwla Barnett, cyllid tecach a phwerau dyroddi bondiau. Nododd fod rhai o'r aelodau yn aelodau hefyd o Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Drethi, a soniodd y Gweinidog Cyllid am ei hymgyngoriadau â rhanddeiliaid a chroesawodd gyfleoedd i siarad am gyd-destun y pwerau newydd.

5.13 Gofynnodd y Prif Weinidog i'r aelodau am eu barn.

5.14 Barn Martin Mansfield oedd bod angen gweithredu'n gyflym i egluro'r setliad datganoli er mwyn i ni allu gweld yn glir beth sydd ei angen ar Gymru, pa bwerau sydd gennym a pha fesurau blaengar y gellir eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r hyn sydd ei angen. Dywedodd hefyd ei fod o'r farn na ddylai Cymru ddilyn y DU o reidrwydd ond y dylai gyflwyno trethi sy'n briodol i Gymru os oes modd.

5.15 Dywedodd Huw Roberts fod ei aelodau am weld Teyrnas Unedig integredig ac y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gwybod beth y gallant ei wneud i sicrhau bod eu busnesau'n fwy llwyddiannus yng nghyd-destun y DU. Roedd o'r farn bod yr hyn yr oedd y Prif Weinidog wedi'i ddweud am ddull gweithredu Llywodraeth y DU yn rhesymol. Soniodd Huw Roberts am y gwahaniaeth rhwng buddsoddiad Llywodraeth y DU yn y gorllewin o gymharu â de-ddwyrain y DU, a oedd yn arwain at seilwaith gwael o ran trafnidiaeth, sy'n broblem real iawn i fusnesau.

5.16 Dywedodd Emma Watkins fod gan ei haelodau ddiddordeb yng nghyflymder a maint datblygiadau ar draws y DU. Roedd yn cydnabod yr hyn yr oedd y Prif Weinidog wedi'i ddweud am y pwerau a gynigir i Gymru ac y dylai Cymru benderfynu a oeddent yn briodol. Pwysleisiodd fod marchnad sengl y DU yn hollbwysig a bod Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi bod yn trafod â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar wahân ond nid gyda'i gilydd.

5.17 Roedd Iestyn Davies o'r farn bod setliad teg yn bwynt allweddol a bod llawer o'r trafod amdano yn digwydd ar lefel wleidyddol yn hytrach nag ar lefel economaidd. Awgrymodd fod modelu'r effaith y byddai newidiadau o ran trethi'n ei chael ar lefel busnesau'n bwysig ac y gellid ystyried yr effeithiau economaidd wedyn.

5.18 Ymhelaethodd y Prif Weinidog ar ei bwynt blaenorol am bwysigrwydd marchnad sengl y DU a mynediad iddi. Pe bai treth gorfforaeth yn cael ei datganoli i'r Alban, dywedodd y Prif Weinidog y byddai angen i ni ailystyried y sefyllfa o ran Cymru.

5.19 O safbwynt hyrwyddo manteision yr Undeb dywedodd y Prif Weinidog wrth yr aelodau y dylai confensiwn cyfansoddiadol fod wedi'i greu ynghylch yr Undeb beth amser yn ôl. Byddai confensiwn o'r fath wedi ystyried rôl Llywodraeth y DU a sut y dylid ymdrin ag anghydfodau rhwng Llywodraethau.

5.20 Mae rhai pwerau arfaethedig, ee ynghylch treth incwm, yn achosi rhai anawsterau oherwydd y ffiniau sydd rhwng y gwledydd datganoledig a Lloegr oddi mewn i'r DU. Pe bai gan Gymru bwerau ynghylch treth incwm gallai problem godi wrth i bobl symud ar draws y ffin am resymau'n ymwneud â threthi, o gofio mor hawdd yw hi i groesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

5.21 Roedd y Gweinidog Cyllid yn cydnabod pwysigrwydd llais byd busnes wrth ffurfio'r cynigion ynghylch trethi wrth i gomisiwn Silk fynd rhagddo a dywedodd fod gan y Cyngor rôl i'w chwarae o ran hynny. Roedd y Gweinidog o'r farn y dylid canolbwyntio ar bwerau y mae diben iddynt – pwerau y mae eu hangen arnom i roi hwb i'r economi drwy feysydd megis seilwaith. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i Martin Mansfield nad ydym am gael pwerau er mwyn cael pwerau'n unig. Rhaid i'r achos dros yr economi a busnes fod flaenaf oherwydd y sefyllfa wleidyddol gydag etholiadau San Steffan eleni, ac mae angen i Gymru gael ei thrin yn yr un modd â phawb arall.

5.22 Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod yn rhaid i ddatganoli ddigwydd ar sylfaen gadarn o safbwynt busnes. Pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd marchnad y DU i Gymru, ac er y byddai efallai'n ddymunol cael pwerau mae angen i ni gael y pwerau a all ein helpu i ddatblygu ein heconomi.

5.23 Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn gobeithio bod y cyfarfod hwn wedi rhoi syniad i'r Cyngor o ddull Cymru o weithredu.

## 6. Unrhyw fater arall

6.1 Gofynnodd Martin Mansfield a fyddai'r swyddogion perthnasol yn gallu gweithio gyda'r Gweithgor Gweithredol ar gaffael, a chytunwyd ar hynny.

| **GWEITHREDU:** Gweithgor Gweithredol y Cyngor i drafod caffael. |
|---|

6.2 Gwnaeth Huw Roberts sylwadau ar ddiwygio llywodraeth leol a safbwynt Sefydliad y Cyfarwyddwyr ar ad-drefnu llywodraeth leol.

6.3 Yn ogystal dywedodd Huw Roberts, o gofio'r cysylltiadau rhwng addysg a sgiliau, y dylid ymdrin â'r maes hwn ar lefel Cymru gyfan. Dywedodd fod gan awdurdodau lleol rôl bwysig i'w chwarae o safbwynt mewnfuddsoddi a bod angen iddynt feddwl yn fwy gofalus am ddatblygu economaidd.

6.4 O ran diwygio gwasanaethau cyhoeddus dywedodd y Prif Weinidog y byddai ymgysylltu'n digwydd â phleidiau. Ar hyn o bryd nid oes cytundeb trawsbleidiol ynghylch ad-drefnu awdurdodau lleol er y ceir consensws y dylai hynny ddigwydd.

6.5 Dyddiad y cyfarfod nesaf – 1 Mehefin 2015.

6.6 Daeth y Prif Weinidog â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.